# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

## Cofnodion (EL(3) 11-09)

**Dyddiad: dydd Iau 30 Ebrill 2009**
**Amser: 13:00 – 14:35pm a 15:10 – 15:15pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Gareth Jones (Cadeirydd), Aberconwy
Christine Chapman, Cwm Cynon
Jeff Cuthbert, Caerffili
Paul Davies, Preseli Sir Benfro
Nerys Evans, Canolbarth a Gorllewin Cymru
David Melding, Canol De Cymru
Sandy Mewies, Delyn
Jenny Randerson, Canol Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Dr Kathryn Jenkins, Clerc
Daniel Collier, Dirprwy Glerc

### Arbenigwr Pwyllgor

Anne Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eraill yn bresennol

Bernie Tyler, Pennaeth Ansawdd
Rob Davies, Cadeirydd Rhwydwaith Cynnal Myfyrwyr
Nick Bennett, Pennaeth Coleg Gorseinon
Catrin Anne Davies, Prif ddeisebydd
Amelia Payne, Myfyrwraig
Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (trwy gynhadledd fideo)
Simon Brindle, Pennaeth yr Is-adran Cyllido ac Ariannu Myfyrwyr
Paul Smith, Pennaeth Datblygu Busnes, Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Huw Lewis.

### 2: Lwfans Cynhaliaeth Addysg
### Papurau: EL(3) 11-09 – Papur 1, EL(3) 11-09 – Papur 2, EL(3) 11-09 – Papur 3, Atodiad 1

**Fforwm**

2.1 Croesawodd y Pwyllgor Bernie Tyler, Pennaeth Ansawdd; Rob Davies, Cadeirydd Rhwydwaith Cynnal Myfyrwyr; a Nick Bennett, Pennaeth Coleg Gorseinon.

2.2 Bu'r Pwyllgor yn holi'r tystion.

**Deiseb Lwfans Cynhaliaeth Addysg – Prif ddeisebydd**

2.3 Croesawodd y Pwyllgor Catrin Anne Davies, Prif ddeisebydd ac Amelia Payne, myfyrwraig.

2.4 Bu'r Pwyllgor yn holi'r deisebwyr.

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

2.5 Croesawodd y Pwyllgor Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau trwy gynhadledd fideo; Simon Brindle, Pennaeth yr Is-adran Cyllido ac Ariannu Myfyrwyr; a Paul Smith, Pennaeth Datblygu Busnes, Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

2.6 Bu'r Pwyllgor yn holi'r Gweinidog.

**Papurau i'w nodi:**

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Blismona'r Ffyrdd yng Nghymru - y Maniffesto 2009**
**Papur: EL(3) 11-09 – Papur 4**

### Cofnodion y cyfarfod blaenorol
### Papur: EL(3) 10-09 – Cofnodion

Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 2 Ebrill.

**Sesiwn breifat**

Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi).

### 3: Adroddiad drafft y Pwyllgor ar y ddeiseb Anghenion Dysgu Ychwanegol Ôl-19

3.1 Rhoddodd y Pwyllgor sylwadau ar ei adroddiad drafft ar y ddeiseb Anghenion Dysgu Ychwanegol Ôl- 19 a chytunwyd arno a gofynnwyd am i'r adroddiad gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn.

**Sesiwn gyhoeddus**

3.2 Ail-gychwynnodd y Pwyllgor mewn sesiwn gyhoeddus i drafod ei adroddiad drafft ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirywiad economaidd rhyngwladol presennol.

3.3 Pleidleisiodd y pwyllgor drwy ddangos dwylo i beidio â chytuno ar yr adroddiad drafft ar ei ffurf bresennol.

3.4 Pleidleisiodd y Pwyllgor eto drwy ddangos dwylo i gytuno ar y gwelliant canlynol i'r argymhelliad ym mharagraff 20 yr adroddiad:

Gofynnwn i Lywodraeth Cynulliad Cymru nodi, ystyried ac ymateb i'r sylwadau hyn. Deallwn fod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n cynllunio adolygiad cysylltiedig ac edrychwn ymlaen at dderbyn ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyn hefyd maes o law.

3.5 Yn dilyn y gwelliant hwn, pleidleisiodd y Pwyllgor drwy ddangos dwylo i gytuno ar ei adroddiad drafft ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirywiad economaidd rhyngwladol presennol, a fyddai'n cael ei gyhoeddi'n fuan.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Ebrill 2009**